# Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus

## LGPS(2)-15-06(p.2)

### Dyddiad: Dydd Mercher, 8 Tachwedd 2006
### Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 2, y Senedd, Cynulliad Cenedlaethol Cymru
### Teitl: Data Perfformiad Llywodraeth Leol Cymru Gyfan

#### Pwrpas

1. Gwahoddir y Pwyllgor i ystyried y data perfformiad llywodraeth leol Cymru gyfan ar gyfer 2005/06 a'r dadansoddiad ystadegol atodol ohono, a gyhoeddwyd gan yr Uned Data Llywodraeth Leol ar 31 Hydref 2006.

#### Crynodeb

2. Ar 31 Hydref 2006, cyhoeddodd Uned Data Llywodraeth Leol Cymru ddata cynhwysfawr wedi'i wirio ar berfformiad awdurdodau lleol yn 2005/06. Cyhoeddodd yr Uned hefyd Fwletin Ystadegol yn rhoi trosolwg ar y data. Mae copi ohono ynghlwm wrth y papur hwn. Yr hyn y mae'r papur hwn yn ei wneud yw crynhoi prif nodweddion a thueddiadau yng nghyswllt y data.

#### Cefndir

3. Dros y ddwy flynedd a hanner diwethaf, mae Llywodraeth y Cynulliad wedi bod yn datblygu system unigol ar gyfer mesur perfformiad gwasanaethau awdurdod lleol yng Nghymru. Nod y Fframwaith Mesur Perfformiad yw cyflwyno dangosyddion cyffredinol ar gyfer mesur yn fanwl yr holl wasanaethau statudol a ddarperir gan awdurdodau lleol, a rhai anstatudol hefyd, ac ar gyfer casglu'r data sy'n rhaid ei gael i reoli a darparu gwasanaethau ac i adrodd yn gyhoeddus. Mae Uned Data Llywodraeth Leol Cymru yn gyfrifol am reoli'r gwaith hwn ar ran Llywodraeth y Cynulliad, ac mae wedi datblygu'r Fframwaith mewn cydweithrediad agos ag ymarferwyr gwasanaeth, cyrff rheoleiddio, arbenigwyr polisi a grwpiau budd eraill, fel cyrff cydraddoldeb. Mae'n ymarfer uchelgeisiol a digynsail, ac mae ein cyd-swyddogion yn Lloegr a'r Alban yn dilyn ei gynnydd yn eiddgar.

4. 2005/06 oedd y flwyddyn gyntaf i awdurdodau lleol gasglu ac adrodd data o dan y fframwaith ac, ar 31 Hydref 2006, cyhoeddodd Uned Data Llywodraeth Leol Cymru gyfres gyflawn o'r data hwnnw wedi'i wirio a'i archwilio. Fodd bynnag, nid oedd y fframwaith a gyflwynwyd yn Ebrill 2005 yn gyflawn, ac o ganlyniad roedd y data ar gyfer rhai gwasanaethau (fel tai) yn fwy cynhwysfawr nag ar gyfer eraill (fel addysg). Mae newidiadau a wnaed i'r Fframwaith yn Ebrill 2006 wedi cywiro hyn i raddau helaeth a bydd y data a gesglir ac a adroddir yn 2006/07 yn llawer mwy cynhwysfawr ar gyfer

y rhan fwyaf o wasanaethau.

5. Mae’r gyfres ddata yn fawr iawn, ac yn cynnwys ymhell dros 3,000 o eitemau data, felly mae’n anodd rhoi trosolwg llawn arno. Er hynny, mae Uned Data Llywodraeth Leol Cymru wedi rhoi cynnig arni yn ei bwletin ystadegol (Atodiad), a gyhoeddodd hefyd ar 31 Hydref 2006. Mae’r papur hwn yn ystyried ac yn asesu’r data ar gyfer 2005/06 yn fras.

## Ystyriaeth

6. Ar lefel Cymru gyfan, mae’r tueddiadau perfformiad yn gadarnhaol ar y cyfan. O’r dangosyddion hynny y gellir eu cymharu â blynyddoedd blaenorol, dangosodd 30 (neu 77%) welliant, 7 (22%) ddirywiad a 2 (3%) ddim newid. Nid yw rhai o’r tueddiadau hynny ddim mwy na rhai ymylol, ond mae’r gwelliannau canlynol yn werth eu nodi.

- Faint o Dreth Cyngor a threthi annomestig a gasglwyd;
- Cyfran y bobl ifanc yn gadael yr ysgol heb gymhwyster;
- Pob un o’r pedwar dangosydd cymharol ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol;
- Faint o achosion digartrefedd a benderfynwyd o fewn y terfyn amser safonol;
- Pob un o’r tri dangosydd yng nghyswllt atgyweirio tai cyngor;
- Pob un o’r pum dangosydd cymharol ar gyfer gwastraff.

7. Yn yr ychydig achosion lle oedd y perfformiad wedi gwaethygu rhwng 2004/5 a 2005/6, eto, ymylol ydoedd gan fwyaf. Efallai ei bod yn werth nodi’n arbennig y dirywiad presenoldeb mewn ysgolion uwchradd – er yn fychan, hwn oedd yr unig ddangosydd cytundeb polisi i ddangos lleihad yn gyffredinol (er yn un a effeithiwyd arno’n rhannol gan heintiad o e-coli); cyflwr y priffyrdd; a’r amser a gymerwyd i brosesu hawliadau budd-dâl diwygiedig (wedi’i sgiwio’n sylweddol drwy fod perfformiad Caerdydd yn llawer is).

8. Mae’r ffigurau Cymru gyfan hyn yn cuddio ystod perfformiad eang iawn rhwng yr awdurdodau yng nghyswllt rhai dangosyddion yn 2005/6. Mewn rhai achosion, mae hynny i’w ddisgwyl: er enghraifft, mae’r data ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg o hyd yn debygol o fod yn uwch yng Ngwynedd nag yn Sir Fynwy; o ran eraill, efallai y gellir priodoli’r gwahaniaeth i effeithiolrwydd yr awdurdodau lleol unigol. Tra byddai ei ddadansoddi yn llawn yn cymryd cryn amser, dyma rhai cymariaethau ystadegol:

- roedd cyfran y plant yn gadael yr ysgol heb gymhwyster yn amrywio rhwng 0.4% (Ceredigion) a 0.7% (Gwynedd), a 3.6% (Abertawe) a 4.3% (Sir Ddinbych);
- roedd yr achosion o oedi gyda throsglwyddo gofal yn amrywio rhwng 0.1 am bob mil o’r boblogaeth dros 75 oed (yng Nghonwy) a 0.4 (Sir Ddinbych), a 15 (Torfaen) a 24.2 (Sir Gaerfyrddin);
- roedd cyfran y plant sy’n derbyn gofal sydd â chynllun gofal parhaus yn 16+ oed yn amrywio rhwng 100% ( Ynys Mon a Sir Gaerfyrddin) i 70% (Pen-y-bont ar Ogwr) a 33% (Caerdydd).
- roedd nifer y teuluoedd digartref a oedd wedi eu lletya mewn Gwely a Brecwast yn amrywio rhwng dim (Blaenau Gwent) a thri (Merthyr), i 82 (Sir Benfro) a 185 (Caerdydd) – er nad yw’r dangosydd hwn yn gyfrannol, h.y. nid yw’n adlewyrchu maint y boblogaeth leol na

chyfanswm nifer y teuluoedd digartref;

- roedd yr amser ar gyfartaledd a gymerwyd i ailosod tai cyngor gwag yn amrywio rhwng 26.2 diwrnod (Caerffili) a 26.3 diwrnod (Conwy), a 90 diwrnod (Merthyr) a 109 diwrnod (Abertawe);
- roedd cyfran yr aelwydydd a oedd yn derbyn casgliad gwastraff ailgylchu ochr pafin yn amrywio rhwng 100% (Pen-y-bont ar Ogwr, Abertawe a Bro Morgannwg), a 21.7% (Conwy) a 20.6% (Ceredigion);
- roedd yr amser ar gyfartaledd a gymerwyd i drwsio goleuadau lampau stryd yn amrywio rhwng diwrnod (Bro Morgannwg a Thorfaen) a 9.9 diwrnod (Sir Benfro) a 15.1 diwrnod (Ceredigion).

## Cydymffurfio

9. Ni ofynnir i'r pwyllgor am benderfyniad ynghylch y data perfformiad ac, felly, nid oes unrhyw faterion cydymffurfio. Datblygwyd y Fframwaith Mesur Perfformiad drwy ddefnyddio fy swyddogaethau yn Rhan 1 Deddf Llywodraeth Leol 1999.

## Goblygiadau Ariannol

10. Nid oes gan y papur hwn unrhyw oblygiadau ariannol. Mae costau datblygu'r Fframwaith a lledaenu'r data yn parhau i gael eu cwrdd gan y Cymorth a roddir i Lywodraeth Leol – grantiau cyllideb craidd - a chan gostau rhedeg dirprwyedig yr Is-adran Polisi Llywodraeth Leol.

## Themâu Trawsbynciol

11. Mae'r data perfformiad llywodraeth leol yn berthnasol iawn i'r agenda Beecham. Mae eu cyhoeddi yn cyfrannu at alwad Beecham am fwy a chliriach atebolrwydd cyhoeddus o ran perfformiad a darparu gwasanaethau. Mae'r amrywiadau rhwng yr awdurdodau a nodir yn y papur hwn hefyd yn atgyfnerthu pa mor bwysig yw argymhellion Beecham ynghylch safonau cenedlaethol. Bydd Llywodraeth y Cynulliad yn parhau i ddatblygu'r Fframwaith Mesur Perfformiad, a sut y defnyddir ac y lledaenir y data a gynhyrchir ganddo, yn unol â'i hymateb i Beecham.

12. Felly, bwriedir darparu cyfres ehangach o ddata perfformiad ar wasanaethau cyhoeddus eraill yng Nghymru. Bydd y datblygiad hwn yn canolbwyntio i ddechrau ar y gwasanaethau hynny sy'n integreiddio'n dda â llywodraeth leol, e.e. gwasanaethau iechyd.

13. Mae fframwaith gwella perfformiad y GIG, a gyflwynwyd yn 2003, yn cynnwys ystod o dargedau a dangosyddion perfformiad a ddefnyddir i fonitro perfformiad y GIG. Mae fy swyddogion wedi dechrau trafod â'r Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i nodi'r gofynion ar gyfer y data hwn, a'r amserlenni cysylltiedig.

## Gweithredu gan y Pwyllgor Pwnc

14. Gwahoddir y Pwyllgor i drafod a gwneud sylw ar y data perfformiad llywodraeth leol Cymru gyfan am 2005/06.

Sue Essex AC
Y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus
Pwynt cyswllt: Ruth Sanger, Is-adran Polisi Llywodraeth Leol, x5144.